## 11.1 Gweddill y Ceisiadau — Remainder Applications

Rhif y Cais: **11C572** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Kinetica Energy Ltd**
**c/o RGR Partnership**
**1st Floor NatWest Bank Building**
**Glanhwfa Road**
**Llangefni**
**LL77 7EN**

Codi twrbin wynt gyda uchder hwn hyd at uchafswm o 15m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 9.7m a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 19.85m ar dir yn

Erection of a wind turbine with a maximum hub height of up to 15m, rotor diameter of up to 9.7m and a maximum vertical tip height of up to 19.85m on land at

Tal Y Llyn, Mynydd Parys, Amlwch



**Pwyllgor Cynllunio: 05/10/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd dod ffi'r cais wedi cael ei thaflu gan gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn am un tyrbin gwynt gydag uchder hwb o 15 metr, uchder mwyaf i ben y llafn o 19.85 metr ac uchafswm diamedr rotor o 9.7 metr. Byddai'r cais cynllunio yn hytrach yn pennu'r uchder, y diamedr rotor a'r graddfa pwer uchaf. Gellir disgrifio'r cynnig felly fel tyrbinau gwynt bychan.

Roedd cynnydd bychan yn niamder y rotor ac uchder y tyrbin o ganlyniad i hynny wrthi'n cael ei hysbysebu a'i ymgynghori arno ar adeg ysgrifennu.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol
- Mwynderau preswyl
- Materion Radar y Weinyddiaeth Amddiffyn a Hedfan Isel
- Cadwraeth Natur

**3. Prif Bolisiau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
C7 Ynni Adnewyddadwy
D3 Ardal Cadwraeth Tirwedd

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
31 Tirwedd
41 Cadwraeth Adeiladau
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
8b Datblygiadau Ynni
EP 18 Ynni Adnewyddadwy
EN1 Cymeriad y Dirwedd

**Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011)**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**
**Canllawiau Cynllunio Atodol**
**Datblygiadau Ynni (Ionawr 1994)**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Aelod Lleol** – Dim ymateb

**Cyngor Cymuned** – Dim gwrthwynebiad.

**Priffyrdd** – Dim argymhelliad, gwybodaeth ar lwybr cyhoeddus.

Mae Llwybr Cyhoeddus rhif 19 wedi'i leoli gerllaw ac ni ddylai'r datblygiad effeithiol symudiad.

**Draenio** – Argymhellir gwybodaeth

**Gwasanaethau Amgylcheddol** – Caniatâd gydag amodau o ran cyfyngiadau swn.

**Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylchedd**ol – Byddai'n croesawu petai modd symud y tyrbin ychydig i'r de o'r gwrychyn fel ei fod mor bell ag sy'n bosibl o'r hyn allai fod yn llwybr hedfan i ystlumod.

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn** – Caniatâd amodol

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** Dim gwrthwynebiad ond argymhellion ynghylch rhywogaethau a ddiogelir.

**RSPB** – Wedi nodi rhai pethau perthnasol sef canllawiau "Scottish National Heritage" ynghylch "Survey Methods for Use in Assessing the Impacts of Onshore Windfarms on Bird Communities" a "Natural Heritage assessment of small scale wind energy projects which do not require formal Environmental Impact Assessment (EIA)"

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd**
Ymddengys nad oes unrhyw oblygiadau archeolegol.

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim hanes cynllunio o bwys.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Egwyddor y datblygiad**

Dywed Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:." "There will be a presumption in favour of renewable energy projects provided that the impacts upon the locality is acceptable to the local planning authority. Where applicable, the proposals should be supported by an environmental assessment."

Dywed Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:
"Renewable energy projects will be permitted where it can be clearly demonstrated that there will not be any unacceptable impact on i. Landscape character, ii. Sites of international, national or local importance for nature conservation, iii. species which are of nature conservation importance iv. the standard of amenity enjoyed by the resident and tourist population and vi. Essential public services and communications.

Dywed Polisi 8B – Datblygiadau Ynni, Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd ".
Applications for the development of renewable and non-renewable energy resources will be permitted where it can be demonstrated that there will be no unacceptable adverse impact upon the environment. Preference will be given to the development of clean and renewable energy sources, but proposals for non-

renewable energy projects will be permitted if they encourage the maximum use of energy efficiency within their design

Roedd Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 4 Chwefror 2011) yn cynnwys newidiadau i rannau 12.8 a 12.8.10 sy'n cyfeirio at 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel'.

Mae adran ddiwygiedig yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy a hynny'n unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010).

Mae'r dyfyniadau isod yn amlygu'r gefnogaeth hon.

Dywed paragraff 12.8.1

*"and maximise renewable and low carbon energy generation at every scale across Wales...."*

Dywed paragraff 12.8.2

*"Planning policy at all levels should facilitate delivery of both the Assembly Government's overall Energy Policy statement, and UK and European targets on renewable energy."*

Dywed paragraff 12.8.9:

*"Local planning authorities should facilitate the development of all forms of renewable and low carbon energy…"*

Mae Rhan 12.10.1 a atgynhrchir isod yn dwyn sylw at y materion hynny y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth ddelio gyda datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r isadeiledd cysylltiedig. Mae'n cynnwys yr agweddau cadarnhau megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewrop a'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae'n dwyn sylw hefyd at yr angen i ystyried yr effaith ar dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol ar angen i effeithio cyn lleied â phosib ar gymunedau lleol. Mae materion eraill megis camau lliniaru a materion isadeiledd, hy cysylltu i'r grid a'r rhwydwaith trafnidaeth hefyd yn cael sylw yn y rhan hon.

*12.10.1 In determining applications for renewable and low carbon energy development and associated infrastructure local planning authorities should take into account:*

- *the contribution a proposal will play in meeting identified national32, UK and European targets and potential for renewable energy, including the contribution to cutting greenhouse gas emissions;*
- *the wider environmental, social and economic benefits and opportunities from renewable and low carbon energy development;*
- *the impact on the natural heritage (See Section 5.5), the Coast ( See Section 5.6) and the Historic Environment (See Section 6.5);*
- *the need to minimise impacts on local communities, to safeguard quality of life for existing and future generations;*
- *ways to avoid, mitigate or compensate identified adverse impacts;*
- *the impacts of climate change on the location, design, build and operation of renewable and low carbon energy development. In doing so consider whether measures to adapt to climate change impacts give rise to additional impacts (see 4.2);*
- *grid connection issues where renewable (electricity) energy developments are proposed;and*

*the capacity of, and effects on, the transportation network relating to the construction and operation of the proposal.*

O'r herwydd, mae Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011) yn cefnogi'n gryf ddatblygiadau ynni adnewyddadwy carbon isel a'u rôl o ran cwrdd â thargedau cenedlaethol.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) “TAN 8” yn cynnwys canllawiau manwl ynghylch datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar Ddatblygiadau Ynni Gwynt yn berthnasol iawn i gynigion ar gyfer tyrbinau gwynt bychan.

Fe wyddys yr Aelodau hefyd am y Fenter Ynys Ynni sy’n ceisio creu swyddi drwy brosiectau niwclear ac ynni adnewyddadwy.

Mae’r polisïau a restrir uchod yn rhagdybio o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn amodol ar gwrdd â’r meini prawf a restrwyd, ac mae’n ystyriaeth o bwys yn yr achos hwn nad oes unrhyw effaith annerbyniol ar gymeriad y dirwedd a mwynderau preswyl a ystyrir ymhellach isod.

**Y Dirwedd ac Effaith Weledol**

Byddai’r tyrbin arfaethedig yn cael ei leoli mewn ardal sydd wedi’i chynnwys yn y gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru (Amlwch a Mynydd Parys), a chaiff ei hystyried fel ardal sensitif sy’n rhan o ardal a ddynodir fel Ardal Dirwedd Arbennig dan ddarpariaethau polisi 31 Cynllun Lleol Ynys Môn, D3 Cynllun Fframwaith Gwynedd ac EN1 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd. Wedi asesu, daethpwyd i’r casgliad bod yr effaith ar y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol yn debygol o fod yn lleol ac nid yn sylweddol.

**Mwynderau Preswyl**

Mae Adain Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor wedi cadarnhau eu bod yn fodlon cymeradwyo. Dylid cael amod sy’n golygu y bydd raid i’r datblygwyr gael caniatâd ysgrifenedig ar gyfer manylion y tyrbin a bydd rhaid i hwn gydymffurfio gyda’r amod ynghylch swn sy’n pennu na ddylai’r swn a ddaw o’r tyrbin fod yn uwch na 40dB $L_{Aeq\ (5\ mun)}$ neu 5dB(A) uwchlaw’r $L_{90}$ lefel swn yn y cefndir.

Byddai modd gweld y tyrbinau arfaethedig o brif ddrychiadau tai lleol. Yn wyneb y ffaith bod y cynnig yn un am un dyrbin gwynt, y pellter o’r tai; nid ystyrir y byddant yn cael annerbyniol ar olygfeydd yr anheddau hyn. Nid yw’r effaith ar werth eiddo yn ystyriaeth o bwys y gellir rhoddi llawer o bwysau arno yn yr asesiad hwn.

Mae’r term “fflachiadau cysgodion” yn cyfeirio at yr effaith fflachiog a geir pan fo llafnau tyrbinau gwynt yn taflu cysgodion dros eiddo cyfagos wrth iddynt droi drwy, agoriadau cyfyng megis ffenestri. Mae’r argymhelliad cyfredol yn y ‘Companion Guide PPS22 (2004)’ yn dweud bod effeithiau fflachiadau cysgodion sydd o fewn 130 gradd y naill ochr i’r gogledd yn dderbyniol, a hefyd y pellter diamedr 10 rotor o’r eiddo agosaf. Nid oes unrhyw eiddo preswyl o fewn yr ardal hon sy’n debygol o gael eu heffeithio. Argymhellwyd amod sy’n golygu y bydd raid i’r datblygwyr ddarparu camau lliniaru ar gyfer unrhyw achosion a all ddigwydd gan fod y cyfarwyddyd yn dweud na fydd un dull unffurf o weithio efallai yn addas gan ddibynnu ar ledred y safle.

**Radar ac Awyrennau’n Hedfan yn Isel**

Mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cadarnhau nad oes gennynt wrthwynebiad i’r cynigion ar y sail y byddent yn creu rhwystr ffisegol i awyrennau miliwrol neu’n tarfu ar osodiadau Rheoli Traffig Awyr a radar Amddiffyn yr Awyr.

**Cadwraeth Natur**

Mae’r RSPB wedi dweud y dylid cymryd sylw o Ganllawiau’r Alban sy’n cynnwys canllawiau ar yr effeithiau

tebygol ar gynefinoedd rhywogaethau a ddiogelir.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi argymell gwybodaeth yng nghyswllt rhywogaethau a warchodir a mae'r ymgeiswyr wedi cytuni i'r rhain.

**Materion Eraill**

Deellir nad yw tyrbinau gwynt bychan yn arwain at broblemau o ran derbyn rhaglenni ar y teledu. Argymhellwyd gosod amod sy'n golygu y byddai'n rhaid i'r datblygwr gywiro unrhyw broblemau o ran derbyn rhaglenni teledu.

Wedi ystyried y cyngor sydd yn Atodiad C, parargraffau 2.19 a 2020 TAN 8 nid yw'r cynigion, o safbwynt Iechyd a Diogelwch, yn agos at unrhyw ffyrdd neu adeiladau.

Deellir y bydd cais ar wahân yn cael ei gyflwyno gan yr ymgymerwr statudol o ran cysylltu i'r grid ac o'r herwydd, nid oes angen gwneud penderfyniad ar hyn wrth ystyried y cais cyfredol.

**7. Casglaid**

Mae'r polisïau a ystyriwyd yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar yr ystyriaethau manwl sydd wedi cael eu hasesu uchod fel rhai derbyniol. Yr argymhelliad yw caniatáu pwerau dirprwyedig i'r swyddogion gymeradwyo'r cais wedi i'r cyfnod hysbysu ddod i ben ac wedi derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghori.

**8. Argymhelliad**

Caniatáu pwerau dirprwyedig i'r swyddogion **ganiatáu**'r cais gyda'r amodau isod wedi i'r cyfnod hysbysu ddod i ben ar 19.10.11 ac ar ôl derbyn unrhyw ymatebion ychwanegol i'r ymgynghori ar y manylion diwygiedig:

**(01) Cychwynnir gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma dim hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm : Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae'r caniatâd cynllunio am gyfnod a fydd ddim yn hwy na 25 blynedd ("y cyfnod 25 blynedd") o'r dyddiad y bydd y datblygiad yn cael ei gysylltu i'r grid trydan ("y grid") am y tro cyntaf. Hysbysir yr awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig am ddyddiadau'r (a) cyswllt cyntaf i'r grid a (b) gweithrediad llawn y tyrbin "y comisiynu" a hynny o fewn 28 diwrnod i'r ddau beth hyn ddigwydd.**

Rheswm: Fel y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r sefyllfa yn wyneb yr amgylchiadau sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod.

**(03) Ni fydd y dyrbin sydd yn cael ei gymeradwyo yma dros:**

| | |
|---|---|
| **19.85 metr** | **Uchder mwyaf y llafn *(*i ben y llafn pan mae'n fertigol)** |
| **15 metr** | **Uchder mwyaf yr hwb** |
| **9.7 metr** | **Diamedr mwyaf y** |

| | |
|---|---|
| | **rotor** |
| **10 kw** | **Y pwer uchaf a ganiateir** |

**Ni fydd unrhyw dyrbin gwynt yn cael ei osod ar y safle hyd oni fydd manylion am y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, lleoliad y trawsnewidydd, graddfa pwer, lefelau swn, gorffenwaith allanol a lliw'r tyrbin arfaethedig wedi cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.**

Rheswm: Diffinio sgôp y caniatâd yn wyneb effaith y datblygiad fel y cafodd ei asesu.

**(04) Ar ddiwedd y cyfnod 25 blynedd, bydd y tyrbin yn cael ei dadgomisiynu a bydd yr holl strwythurau sydd uwchben y ddaear yn cael eu symud o'r safle. 12 mis cyn dadgomisiynu'r tyrbin, bydd cynllun ysgrifenedig ar gyfer adfer y safle ("y cynnlun dadgomisiynu") yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun dadgomisiynu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud i ffwrdd â'r tyrbin wynt a'i hoffer cysylltiedig ategol i ddyfnder a fydd o leiaf 1m dan y ddaear. Bydd yr holl waith dadgomisiynu ac adfer yn cael eu gyflawni'n unol â'r cynllun dadgomisiynu fel y cafodd ei gymeradwyo ac yn unol â'r amserlen ynddo.**

Rheswm: Sicrhau bod y safle'n edrych yn foddhaol wedi i'r datblygiad ddod i ben.

**(05) Os bydd unrhyw dyrbin gwynt a ganiateir yma yn methu cynhyrchu trydan ar gyfer ei gyflenwi i'r grid am gyfnod di-dor o 12 mis, yna bydd y tyrbin gwynt a'i offer cysylltiedig ategol yn cael eu tynnu i lawr i ddyfnder a fydd o leiaf 1m dan y ddaear a'u symud o'r safle a bydd y tir yn cael ei adfer o fewn cyfnod o 6 mis o'r cyfnod 12 mis hwnnw yn unol â chynllun ("y cynllun symud ymaith") a fydd wedi ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo cyn cychwyn gwaith ar y datblygiad. Bydd y datblygwr yn darparu gyflwyno gweithredol ysgrifenedig ar gyfer y tyrbin i'r awdurdod cynllunio wedi derbyn cais rhesymol ysgrifenedig am y wybodaeth honno.**

Rheswm: Er budd mwyderau'r ardal leol.

**(06) O fewn 6 mis o'r "comisiynu" ac wedi derbyn cais ygrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol gan gynnwys unrhyw amserlenni a bennir ynddo, bydd cynllun lliniaru ysgrifenedig gan gynnwys amserlen ("y cynllun lliniaru) yn nodi manylion am y gwaith sy'n angenrheidiol i liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar signalau teledu a radio domestig yn yr ardal a achosir gan y datblygiad yn cael ei gyflwyno i a'i gymeradwy'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cynllun lliniaru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymchwilio i a delio gydag unrhyw hawliad gan unrhyw berson am unrhyw golled neu ymyriad domestig yn eu cartref a bydd rhaid gwneud unrhyw waith lliniaru yn unol â'r cynllun lliniaru a gymeradwywyd.**

Rheswm: Gwarchod mwynderau'r ardal.

**(07) O fewn 12 mis o'r "comisiynu" ac wedi derbyn cais ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol gan gynnwys unrhyw amserlenni ynddo; bydd cynllun ysgrifenedig i liniaru unrhyw achosion o fflachiadau cysgodion mewn unrhyw eiddo a effeithir gan gynnwys amserlen ("y cynllun lleddfu") yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig danddo. Bydd y datblygiad yn cael ei weithredu wedyn yn unol â'r "cynllun lleddfu".**

Rheswm: Gwarchod mwynderau trigolion yr eiddo cyfagos.

**(08) Bydd yr holl geblau ar y safle rhwng y tyrbin wynt a'r is-orsaf ar y safle yn cael eu gosod dan y**

**ddaear.**

Rheswm: Er budd mwynderau.

**(09) Ni chychwynnir unrhyw waith ar y datblygiad hyd oni fydd yr isod wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.**

- **Dyddiadau cychwyn a gorffen y gwaith adeiladu.**
- **Uchder eithaf unrhyw offer adeiladu pan fo wedi'i ymestyn.**
- **Lledred a hydred y tyrbin**

**Bydd y datblygiad wedyn yn cael ei weithredu'n gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd dan ddarpariaethau'r amod hwn.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod awyrennau militaraidd yn osgoi'r ardal ac yn osgoi perygl gwrthdrawiad.

**(10) Ni fydd unrhyw dyrbin gwynt yn cael ei osod ar y safle hyd oni fydd manylion yn cadarnhau'r isod wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo:**

**1) Dim ond person addas, cymwys fydd yn cael gosod y tyrbin a hynny'n unol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac arolwg safle a bydd cadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfio yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 14 diwrnod i gwblhau gosod y tyrbin.**

**2) Bydd y tyrbin gwynt yn cael eu chynnal a'i chadw'n unol ag argymhellion y gwneuthurwr a gall yr awdurdod cynllunio lleol ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfiad â gwasanaethu o'r fath ar gais rhesymol.**

**3) Ni fydd y swn o'r tyrbin yn uwch na 40dB $L_{Aeq\ (5\ mun)}$ neu 5dB(A) uwchlaw lefelau'r swn cefndirol o $L_{90}$ o ffasâd unrhyw eiddo cyfagos y mae rhywun yn byw ynddo ac sydd ddim ym mherchenogaeth yr ymgeisydd. Lle mae'r rhan agosaf o unrhyw eiddo cyfagos uwchlaw lefel y ddaear, bydd lefel y swn yn cael ei fonitro 1m o'r ffasâd a chywiriad ffasâd o 3dB(A) yn cael ei wneud. Bydd data monitor yn cael ei gadw gan y datblygwr am chew mlynedd a chopiau ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol ar gais rhesymol.**

**4) Ni fydd y tyrbinau gwynt o naws donyddol.**

**Bydd y datblygiad o hyn allan yn cael ei weithredu a'i gadw'n unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan y ddarpariaeth yn yr amod.**

Rheswm: Er bydd mwynderau deiliaid anheddau cyfagos.

**Gwybodaeth**

Memo draenio 02/08/11

Llythyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru 15/07/11

Memo Hawliau Tramwy Cyhoeddus 20/07/11

**9. Polisiau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

FF11 (Traffig)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 (Polisi Cyffredinol)

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

**11.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **11C573** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Kinetica Energy Ltd**
**c/o RGR Partnership**
**1st Floor NatWest Bank Building**
**Glanhwfa Road**
**Llangefni**
**LL77 7EN**

Codi dwy twrbin wynt gyda uchder hwn hyd at uchafswm o 15 medr, diamedr rotor hyd at uchafswm o 9.7 medr a uchder blaen unionsyth vertigol hyd at uchafswm o 19.85 medr ar dir ger

Erection of two wind turbines with a maximum hub height of up to 15 metres, rotor diameter of up to 9.7 metres and a maximum upright vertical tip height of up to 19.85 metres on land adjoining

Penrallt, Penrhyd, Amlwch



**Pwyllgor Cynllunio: 05/10/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi cael ei thalu gan gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn ac mae wnelo'r cais â thir un o gynghorwyr eraill Cyngor Sir Ynys Môn.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn am ddau dyrbin gwynt gydag uchder hwb o 15 metr, uchder mwyaf i ben y llafn o 19.85 metr ac uchafswm diamedr rotor o 9.7 metr. Byddai'r cais cynllunio yn hytrach yn pennu'r uchder, y diamedr rotor a'r raddfa bŵer uchaf. Gellir disgrifio'r cynnig felly fel tyrbinau gwynt bychan.

Roedd cynnydd bychan yn niamder y rotor ac uchder y tyrbin o ganlyniad i hynny wrthi'n cael ei hysbysebu a'i ymgynghori arno ar adeg ysgrifennu.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol
- Mwynderau preswyl
- Materion Radar y Weinyddiaeth Amddiffyn a Hedfan Isel
- Cadwraeth Natur

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
C7 Ynni Adnewyddadwy
D3 Ardal Cadwraeth Tirwedd

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
31 Tirwedd
41 Cadwraeth Adeiladau
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
8b Datblygiadau Ynni
EP 18 Ynni Adnewyddadwy
EN1 Cymeriad y Dirwedd

**Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011)**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Canllawiau Cynllunio Atodol**
**Datblygiadau Ynni (Ionawr 1994)**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Aelod Lleol** – Dim ymateb wedi'i dderbyn

**Cyngor Tref Amlwch** – Yn cefnogi

**Priffyrdd** – Dim argymhelliad

**Draenio** – Argymhellir gwybodaeth

**Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylchedd** - Dim sylwadau ecolegol ond wedi nodi'n gyffredinol y dylai tyrbinau gwynt bychan gael eu lleoli 5 metr o wrychoedd.

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn** – Caniatâd amodol

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** Dim yn gwrthwynebu ond yn argymell y dylid lleoli tyrbinau 50 metr i ffwrdd o nodweddion llinellol megis gwrychoedd, coed, coridorau afonydd neu adeiladau fferm.

**RSPB** – Wedi nodi rhai pethau perthnasol sef canllawiau "Scottish National Heritage" ynghylch "Survey Methods for Use in Assessing the Impacts of Onshore Windfarms on Bird Communities" a "Natural Heritage assessment of small scale wind energy projects which do not require formal Environmental Impact Assessment (EIA)"

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd**
Ymddengys nad oes unrhyw oblygiadau archeolegol.

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd un llythyr o wrthwynebiad i'r cais cynllunio am y rhesymau isod:

- Swn amledd isel
- Effaith weledol
- Pryderon ynghylch effaith tyrbinau gwynt ar radar ac yn arbennig eu heffaith ar awyrennau o'r Fali yn hedfan yn isel
  Effaith gronnol

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim hanes cynllunio o bwys.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Egwyddor y datblygiad**

Dywed Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:." "There will be a presumption in favour of renewable energy projects provided that the impacts upon the locality is acceptable to the local planning authority. Where applicable, the proposals should be supported by an environmental assessment."

Dywed Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:
"Renewable energy projects will be permitted where it can be clearly demonstrated that there will not be any unacceptable impact on i. Landscape character, ii. Sites of international, national or local importance for nature conservation, iii. species which are of nature conservation importance iv. the standard of amenity enjoyed by the resident and tourist population and vi. Essential public services and communications.

Dywed Polisi 8B – Datblygiadau Ynni, Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd “.
Applications for the development of renewable and non-renewable energy resources will be permitted where it can be demonstrated that there will be no unacceptable adverse impact upon the environment. Preference will be given to the development of clean and renewable energy sources, but proposals for non-renewable energy projects will be permitted if they encourage the maximum use of energy efficiency within their design

Roedd Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 4 Chwefror 2011) yn cynnwys newidiadau i rannau 12.8 a 12.8.10 sy’n cyfeirio at ‘Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel’.

Mae adran ddiwygiedig yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy a hynny’n unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010).

Mae’r dyfyniadau isod yn amlygu’r gefnogaeth hon.

Dywed paragraff 12.8.1

*“and maximise renewable and low carbon energy generation at every scale across Wales....”*

Dywed paragraff 12.8.2

*“Planning policy at all levels should facilitate delivery of both the Assembly Government’s overall Energy Policy statement, and UK and European targets on renewable energy.”*

Dywed paragraff 12.8.9:

*“Local planning authorities should facilitate the development of all forms of renewable and low carbon energy…”*

Mae Rhan 12.10.1 a atgynhyrchir isod yn dwyn sylw at y materion hynny y dylai’r awdurdod cynllunio lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth ddelio gyda datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a’r isadeiledd cysylltiedig. Mae’n cynnwys yr agweddau cadarnhau megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewrop a’r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae’n dwyn sylw hefyd at yr angen i ystyried yr effaith ar dreftadaeth naturiol, yr arfordir a’r amgylchedd hanesyddol ar angen i effeithio cyn lleied â phosib ar gymunedau lleol. Mae materion eraill megis camau lliniaru a materion isadeiledd, hy cysylltu i’r grid a’r rhwydwaith trafnidiaeth hefyd yn cael sylw yn y rhan hon.

*12.10.1 In determining applications for renewable and low carbon energy development and associated infrastructure local planning authorities should take into account:*

- *the contribution a proposal will play in meeting identified national32, UK and European targets and potential for renewable energy, including the contribution to cutting greenhouse gas emissions;*
- *the wider environmental, social and economic benefits and opportunities from renewable and low carbon energy development;*
- *the impact on the natural heritage (See Section 5.5), the Coast ( See Section 5.6) and the Historic Environment (See Section 6.5);*
- *the need to minimise impacts on local communities, to safeguard quality of life for existing and future generations;*
- *ways to avoid, mitigate or compensate identified adverse impacts;*
- *the impacts of climate change on the location, design, build and operation of renewable and low carbon energy development. In doing so consider whether measures to adapt to climate change impacts give rise to additional impacts (see 4.2);*
- *grid connection issues where renewable (electricity) energy developments are proposed;and the capacity of, and effects on, the transportation network relating to the construction and operation of the proposal.*

O'r herwydd, mae Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011) yn cefnogi'n gryf ddatblygiadau ynni adnewyddadwy carbon isel a'u rôl o ran cwrdd â thargedau cenedlaethol.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) "TAN 8" yn cynnwys canllawiau manwl ynghylch datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar Ddatblygiadau Ynni Gwynt yn berthnasol iawn i gynigion ar gyfer tyrbinau gwynt bychan.
Fe wyddys yr Aelodau hefyd am y Fenter Ynys Ynni sy'n ceisio creu swyddi drwy brosiectau niwclear ac ynni adnewyddadwy.

Mae'r polisïau a restrir uchod yn rhagdybio o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn amodol ar gwrdd â'r meini prawf a restrwyd, ac mae'n ystyriaeth o bwys yn yr achos hwn nad oes unrhyw effaith annerbyniol ar gymeriad y dirwedd a mwynderau preswyl a ystyrir ymhellach isod.

**Y Dirwedd ac Effaith Weledol**

Byddai'r tyrbin arfaethedig yn cael ei leoli mewn tirwedd uchel a bryniog sy'n rhan o ardal a ddynodir yn Ardal Tirwedd Arbennig dan ddarpariaethau polisi 31 Cynllun Lleol Ynys Môn, D3 Cynllun Fframwaith Gwynedd ac EN1 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd.

Mae amlygrwydd a gweledig y tyrbinau wedi cael eu hasesu o safbwynt topograffi a'r sgrinio presennol a daethpwyd i'r casgliad bod yr effaith ar yr Ardal Dirwedd Arbennig yn debygol o fod yn lleol ac nid yn sylweddol. Yn ogystal, nid ystyrir bod effaith gronnol amgylcheddol a gweledol y tyrbinau hyn yn ychwanegol at dyrbinau domestig a masnachol eraill sydd yn yr ardal ar hyn o bryd yn fater y mae angen gwybodaeth ac ystyriaeth ychwanegol yn ei gylch.

**Mwynderau Preswyl**

Mae Adain Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor wedi cadarnhau eu bod yn fodlon cymeradwyo dau dyrbin gwynt hyd at 15m o uchder i'r hwb, rotorau sydd hyd at 8.5m o ddiamedr a hyd at 11.5kw o gryfder yn y lleoliad hwn. Mae'r amod hwn yn golygu y bydd raid i'r datblygwyr gael caniatâd ysgrifenedig ar gyfer manylion y tyrbin a bydd rhaid i hwn gydymffurfio gyda'r amod ynghylch swn sy'n pennu na ddylai'r swn a ddaw o'r tyrbin fod yn uwch na 40dB $L_{Aeq\ (5\ mun)}$ neu 5dB(A) uwchlaw'r $L_{90}$ lefel swn yn y cefndir.

Byddai modd gweld y tyrbinau arfaethedig o brif ddrychiadau tai lleol. Yn wyneb y ffaith bod y cynnig yn un am ddau dyrbin gwynt, y pellter o'r tai a'u gwahaniad gan lôn a chaeau; nid ystyrir y byddant yn cael effaith annerbyniol ar olygfeydd yr anheddau hyn. Nid yw'r effaith ar werth eiddo yn ystyriaeth o bwys y gellir rhoddi llawer o bwysau arni yn yr asesiad hwn.

Mae'r term "fflachiadau cysgodion" yn cyfeirio at yr effaith fflachiog a geir pan fo llafnau tyrbinau gwynt yn taflu cysgodion dros eiddo cyfagos wrth iddynt droi, drwy agoriadau cyfyng megis ffenestri. Mae'r argymhelliad cyfredol yn y 'Companion Guide PPS22 (2004)' yn dweud bod effeithiau fflachiadau cysgodion sydd o fewn 130 gradd y naill ochr i'r gogledd yn dderbyniol, a hefyd y pellter diamedr 10 rotor o'r eiddo agosaf. Nid oes unrhyw eiddo preswyl o fewn yr ardal hon sy'n debygol o gael eu heffeithio. Argymhellwyd amod sy'n golygu y bydd raid i'r datblygwyr ddarparu camau lliniaru ar gyfer unrhyw achosion a all ddigwydd gan fod y cyfarwyddyd yn dweud na fydd un dull unffurf o weithio efallai yn addas gan ddibynnu ar ledred y safle.

**Radar ac Awyrennau'n Hedfan yn Isel**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r cynigion ar y sail y byddent yn creu rhwystr ffisegol i awyrennau milwrol neu'n tarfu ar osodiadau Rheoli Traffig Awyr a radar Amddiffyn yr Awyr.

**Cadwraeth Natur**

Nid yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi gwrthwynebu i'r datblygiad ond wedi argymell bod o leiaf 50 metr rhyngddynt a'r gwrychyn. Mae'r RSPB wedi dweud y dylid cymryd sylw o Ganllawiau'r Alban sy'n cynnwys canllawiau ar yr effeithiau tebygol ar gynefinoedd rhywogaethau a ddiogelir.

Mae Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol y Cyngor wedi dweud, oherwydd natur a chyflwr y gwrychoedd, y pellteroedd gwahanu o'r gwrychoedd yn yr achos hwn (oddeutu 40m), mae'n annhebygol y câi'r cais effaith ecolegol niweidiol iawn ac argymhellwyd amod ar y sail honno. Mae'r ffaith bod y cais yn un am dyrbinau gwynt bychan ac nad oes unrhyw safleoedd cadwraeth natur dynodedig gerllaw hefyd wedi cael eu cymryd i ystyriaeth gan yr Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol.

**Materion Eraill**

Deellir nad yw tyrbinau gwynt bychan yn arwain at broblemau o ran derbyn rhaglenni ar y teledu. Argymhellwyd gosod amod sy'n golygu y byddai'n rhaid i'r datblygwr gywiro unrhyw broblemau o ran derbyn rhaglenni teledu.

Wedi ystyried y cyngor sydd yn Atodiad C, parargraffau 2.19 a 2020 TAN 8 nid yw'r cynigion, o safbwynt Iechyd a Diogelwch, yn agos at unrhyw ffyrdd neu adeiladau.

Deellir y bydd cais ar wahân yn cael ei gyflwyno gan yr ymgymerwr statudol o ran cysylltu i'r grid ac o'r herwydd, nid oes angen gwneud penderfyniad ar hyn wrth ystyried y cais cyfredol.

**7. Casgliad**

Mae'r polisïau a ystyriwyd yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar yr ystyriaethau manwl sydd wedi cael eu hasesu uchod fel rhai derbyniol. Yr argymhelliad yw caniatáu pwerau dirprwyedig i'r swyddogion gymeradwyo'r cais wedi i'r cyfnod hysbysu ddod i ben ac wedi derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghori.

**8. Argymhelliad**

Caniatáu pwerau dirprwyedig i'r swyddogion **ganiatáu**'r cais gyda'r amodau isod wedi i'r cyfnod hysbysu ddod i ben ar 14.10.11 ac ar ôl derbyn unrhyw ymatebion ychwanegol i'r ymgynghori ar y manylion diwygiedig:

**(01) Cychwynnir gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma dim hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm : Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae'r caniatâd cynllunio am gyfnod a fydd ddim yn hwy na 25 blynedd ("y cyfnod 25 blynedd") o'r dyddiad y bydd y datblygiad yn cael ei gysylltu i'r grid trydan ("y grid") am y tro cyntaf. Hysbysir yr awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig am ddyddiadau'r (a) cyswllt cyntaf i'r grid a (b) gweithrediad llawn yr holl dyrbinau "y comisiynu" a hynny o fewn 28 diwrnod i'r ddau beth hyn ddigwydd.**

Rheswm: Fel y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r sefyllfa yn wyneb yr amgylchiadau sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod.

**(03) Ni fydd y ddau dyrbin a gymeradwyir yma dros:**

| | |
|---|---|
| **19.85 met** | **Uchder mwyaf y llafn *(*i ben y llafn pan mae'n fertigol)** |
| **15 metr** | **Uchder mwyaf yr hwb** |
| **9.7 metr** | **Diamedr mwyaf y rotor** |
| **10 kw** | **Y pwer uchaf a ganiateir** |

**Ni fydd unrhyw dyrbin gwynt yn cael ei osod ar y safle hyd oni fydd manylion am y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, lleoliad y trawsnewidydd, graddfa pwer, lefelau swn, gorffenwaith allanol a lliw'r tyrbinau arfaethedig wedi cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd llafnau'r holl dyrbinau yn troi i'r un cyfeiriad. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu wedi hynny yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd.**

Rheswm: Diffinio sgôp y caniatâd yn wyneb effaith y datblygiad fel y cafodd ei asesu.

**(04) Ar ddiwedd y cyfnod 25 blynedd, bydd y tyrbinau'n cael eu dadgomisiynu a bydd yr holl strwythurau sydd uwchben y ddaear yn cael eu symud o'r safle. 12 mis cyn dadgomisiynu'r tyrbinau, bydd cynllun ysgrifenedig ar gyfer adfer y safle ("y cynnlun dadgomisiynu") yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun dadgomisiynu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud i ffwrdd â'r tyrbinau gwynt a'u hoffer cysylltiedig ategol i ddyfnder a fydd o leiaf 1m dan y ddaear. Bydd yr holl waith dadgomisiynu ac adfer yn cael eu gyflawni'n unol â'r cynllun dadgomisiynu fel y cafodd ei gymeradwyo ac yn unol â'r amserlen ynddo.**

Rheswm: Sicrhau bod y safle'n edrych yn foddhaol wedi i'r datblygiad ddod i ben.

**(05) Os bydd unrhyw dyrbin gwynt a ganiateir yma yn methu cynhyrchu trydan ar gyfer ei gyflenwi i'r grid am gyfnod di-dor o 12 mis, yna bydd y tyrbin gwynt a'i offer cysylltiedig ategol yn cael eu tynnu i lawr i ddyfnder a fydd o leiaf 1m dan y ddaear a'u symud o'r safle a bydd y tir yn cael ei adfer o fewn cyfnod o 6 mis o'r cyfnod 12 mis hwnnw yn unol â chynllun ("y cynllun symud ymaith") a fydd wedi ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo yn ysgrifenedig cyn cychwyn gwaith ar y datblygiad. Bydd y datblygwr yn darparu gyflwyno gweithredol ysgrifenedig ar gyfer y tyrbinau unigol i'r awdurdod cynllunio wedi derbyn cais rhesymol ysgrifenedig am y wybodaeth honno.**

Rheswm: Er budd mwyderau'r ardal leol.

**(06) O fewn 6 mis o'r "comisiynu" ac wedi derbyn cais ygrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol gan gynnwys unrhyw amserlenni a bennir ynddo, bydd cynllun lliniaru ysgrifenedig gan gynnwys amserlen ("y cynllun lliniaru) yn nodi manylion am y gwaith sy'n angenrheidiol i liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar signalau teledu a radio domestig yn yr ardal a achosir gan y datblygiad yn cael ei gyflwyno i a'i gymeradwy'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cynllun lliniaru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymchwilio i a delio gydag unrhyw hawliad gan unrhyw berson am unrhyw golled neu ymyriad domestig yn eu cartref a bydd rhaid gwneud unrhyw waith lliniaru yn unol â'r cynllun lliniaru a gymeradwywyd.**

Rheswm: Gwarchod mwynderau'r ardal.

**(07) O fewn 12 mis o'r "comisiynu" ac wedi derbyn cais ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol gan gynnwys unrhyw amserlenni ynddo; bydd cynllun ysgrifenedig i liniaru unrhyw achosion o fflachiadau cysgodion mewn unrhyw eiddo a effeithir gan gynnwys amserlen ("y cynllun lleddfu") yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig danddo. Bydd y datblygiad yn cael ei weithredu wedyn yn unol â'r "cynllun lleddfu".**

Rheswm: Gwarchod mwynderau trigolion yr eiddo cyfagos.

**(08) Bydd yr holl geblau ar y safle rhwng y tyrbinau gwynt a'r is-orsaf ar y safle yn cael eu gosod dan y ddaear.**

Rheswm: Er budd mwynderau.

**(09) Ni chychwynnir unrhyw waith ar y datblygiad hyd oni fydd yr isod wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.**

- **Dyddiadau cychwyn a gorffen y gwaith adeiladu.**
- **Uchder eithaf unrhyw offer adeiladu pan fo wedi'i ymestyn.**
- **Lledred a hydred pob tyrbin**

**Bydd y datblygiad wedyn yn cael ei weithredu'n gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd dan ddarpariaethau'r amod hwn.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod awyrennau milwrol yn osgoi'r ardal ac yn osgoi perygl gwrthdrawiad.

**(10) Ni fydd unrhyw dyrbin gwynt yn cael ei osod ar y safle hyd oni fydd manylion yn cadarnhau'r isod wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo:**

**1) Dim ond person addas, cymwys fydd yn cael gosod y tyrbinau a hynny'n unol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac arolwg safle a bydd cadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfio yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 14 diwrnod i gwblhau gosod y tyrbin.**

**2) Bydd y tyrbinau gwynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n unol ag argymhellion y gwneuthurwr a gall yr awdurdod cynllunio lleol ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfiad â gwasanaethu o'r fath ar gais rhesymol.**

**3) Ni fydd y swn o'r tyrbin yn uwch na 40dB $L_{Aeq\ (5\ mun)}$ neu 5dB(A) uwchlaw lefelau'r swn cefndirol o $L_{90}$ o ffasâd unrhyw eiddo cyfagos y mae rhywun yn byw ynddo ac sydd ddim ym mherchenogaeth yr ymgeisydd. Lle mae'r rhan agosaf o unrhyw eiddo cyfagos uwchlaw lefel y ddaear, bydd lefel y swn yn cael ei fonitro 1m o'r ffasâd a chywiriad ffasâd o 3dB(A) yn cael ei wneud. Bydd data monitor yn cael ei gadw gan y datblygwr am chew mlynedd a chopiau ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol ar gais rhesymol.**

**4) Ni fydd y tyrbinau gwynt o naws donyddol.**

**Bydd y datblygiad o hyn allan yn cael ei weithredu a'i gadw'n unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan y ddarpariaeth yn yr amod.**

Rheswm: Er bydd mwynderau deiliaid anheddau cyfagos.

**Gwybodaeth**

Memo draenio 02/08/11

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
FF11 (Traffig)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 (Polisi Cyffredinol

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP1 (Canllawiau Rheoli Datblygu)

**11.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **35C102F** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr Wynn Roberts**
**c/o Mr Harry Jones**
**Swn Y Mor**
**56 Llaneilian Rd**
**Amlwch**
**Ynys Mon**
**LL68 8HU**

Codi ystafell haul yn | Erection of a conservatory at

Machlyd Haul, Penmon



**Pwyllgor Cynllunio: 05/10/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (GJ)**

**Argymhelliad:**

Canitatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r ymgeisydd yn perthyn i swyddog yn y Cyngor.

Mae’r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy’n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae’r safle yn Anheddiad Rhestredig Penmon.

Cais yw hwn i godi ystafell haul yng nghefn yr eiddo.

**2. Mater(ion) Allweddol**

.

Y mater allweddol gyda’r cais hwn yw - a fydd y cynnig yn ffitio i mewn gyda’r eiddo cyfredol ac a fydd yn cael effaith ar fwynderau’r eiddo o gwmpas.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 30 – Tirlun
Polisi 42 – Dyluniad
Polisi 58 – Estyniadau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D29 – Dyluniad.

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**
Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN2 – Tirlun

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Cyngor Cymuned** – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu’r adroddiad.

**Aelod Lleol** – Cafwyd galwad ffôn gan yr aelod lleol yn datgan diddordeb yn y cais.

**Dwr Cymru** - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu’r adroddiad.

**Draenio** – Sylwadau

**Priffyrdd** - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Rhoddwyd rhybudd i eiddo cyfagos trwy lythyr a rhoddwyd rhybudd safle ger y safle. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 22 Medi 2011. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

35C102 – Codi annedd yng ngardd 1 Coedwig Teras, Penmon – 14/3/90 – Gwrthod.

35C102A – Codi annedd yngngardd 1 Coedwig Teras, Penmon – 13/1/90 – Gwrthod.

35C102B – Codi annedd ar dir ger Coedwig Teras, Penmon – Caniatáu 18/10/91 – Cytundeb Adran 106 – 25/5/91.

35C102C/DA – Cynlluniau manwl i godi annedd ym Machlyd Haul, Penmon – 4/3/92 – Caniatáu.

35C102D – Cadw'r gwaith gwnaed heb ganiatad cynllunio yn Machlud Haul, Penmon – 7/9/93 – Caniatáu.

35C102E – Rhyddhau o Gytundeb Adran 106 (person ifanc) o 35C102B yn Machlud Haul, Penmon – 19/6/03 – Caniatau

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Yr effaith ar eiddo oddi amgylch** - Bydd yr ystafell haul yn wynebu'n uniongyrchol tuag at ddarn o dir gwag. Mae yna bellter o bron i 30 metr i'r eiddo elwir yn 1 Pen y Fron Teras ac ni fydd yr eiddo ar yr ochr arall yn gallu gweld yr ystafell haul. Nid ydym yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**Effaith ar y lleoliad** – Mae dyluniad yr ystafell haul arfaethedig yn adlewyrchu dyluniad yr annedd wreiddiol.

**7. Casgliad**

Fe all y safle dderbyn y cynnig yn gyfforddus heb i bethau edrych yn gyfyng na gorddatblygu'r safle er drwg i gymeriad yr ardal neu fwynderau eiddo cyfagos. Mae'r cynnig yn cydymffurfio gyda'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar Gyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig, Nodyn Cyngor Technegol 12: Dyluniad a pholisïau geir yng Nghynllun Lleol Ynys Môn a'r cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Nodyn Cyngor Technegol 12** – Dyluniad

**Polisi Cynllunio Cymru Cyfres 4, Chwefror 2011** – 4.10 Dyluniad Da

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**11.4** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **38C266** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Kinetica Energy Ltd**
**c/o RGR Partnership**
**1st Floor NatWest Bank Building**
**Glanhwfa Road**
**Llangefni**
**LL77 7EN**

Codi un twrbin wynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 15 medr, diamedr rotor hyd at uchafswm o 9.7 medr a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 19.85 medr ar dir yn

Erection of one wind turbine with a maximum hub height of up to 15 metres, rotor diameter of up to 9.7 metres and a maximum upright vertical tip height of up to 19.85 metres on land at

Rhoslan, Rhosgoch



**Pwyllgor Cynllunio: 05/10/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi cael ei thalu gan gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn am un tyrbin gwynt gydag uchder hwb o 15 metr, uchder mwyaf i ben y llafn o 19.85 metr ac uchafswm diamedr rotor o 9.7 metr. Byddai'r cais cynllunio yn hytrach yn pennu'r uchder, y diamedr rotor a'r raddfa pŵer uchaf. Gellir disgrifio'r cynnig felly fel tyrbinau gwynt bychan.

Roedd cynnydd bychan yn niamder y rotor ac uchder y tyrbin o ganlyniad i hynny wrthi'n cael ei hysbysebu a'i ymgynghori arno ar adeg ysgrifennu.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol
- Mwynderau preswyl
- Materion Radar y Weinyddiaeth Amddiffyn a Hedfan Isel
- Cadwraeth Natur

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
C7 Ynni Adnewyddadwy
D3 Ardal Cadwraeth Tirwedd

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
31 Tirwedd
41 Cadwraeth Adeiladau
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
8b Datblygiadau Ynni
EP 18 Ynni Adnewyddadwy
EN1 Cymeriad y Dirwedd

**Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011)**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**
**Canllawiau Cynllunio Atodol**
**Datblygiadau Ynni (Ionawr 1994)**

## 4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

**Aelod Lleol** – Dim ymateb wedi'i dderbyn

**Cyngor Cymuned** – Dim ymateb wedi'i dderbyn

**Priffyrdd** – Dim argymhelliad

**Draenio** – Argymhellir gwybodaeth

**Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol** – Dim sylwadau ecolegol ond ystyriwyd sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn** – Caniatâd amodol

**RSPB** – Wedi nodi rhai pethau perthnasol sef canllawiau "Scottish National Heritage" ynghylch "Survey Methods for Use in Assessing the Impacts of Onshore Windfarms on Bird Communities" a "Natural Heritage assessment of small scale wind energy projects which do not require formal Environmental Impact Assessment (EIA)"

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd**
Ymddengys nad oes unrhyw oblygiadau archeolegol.

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd un llythyr o wrthwynebiad i'r cais cynllunio am y rhesymau isod:

- Fe ddywed y llythyr nad oes gan yr ysgrifenwyr unrhyw wybodaeth hyd yn hyn ar safle'r tyrbin yn Rhoslan
- Ni chafwyd unrhyw wybodaeth ynghylch yr effaith ar yr amgylchedd. Datgenir yn glir yn rheoliadau ETSU-R 97 dyddiedig 1996 y dylid darparu lefelau sŵn, ond nid yw hyn wedi cael ei wneud.
- Nid oes unrhyw astudiaethau amgylcheddol i asesu'r effaith ar adar a bywyd gwyllt lleol wedi cael eu cynnal.
- Yr effaith ar dwristiaeth.
- Dylid cynnal ymchwiliad llawn i'r effaith ar yr ardal a'r cynefinoedd lleol (y cwmni sy'n ymgeisio am y caniatâd hwn i dalu amdano).
- Ni ystyriwyd mater fflachiadau cysgodion. Mae hyn o bryder mawr i'r llywodraeth a nifer o awdurdodau lleol oherwydd y gall effeithio ar batrymau cysgu pobl ac felly achosi nifer o broblemau iechyd. Nid yw'r cynllun ar gyfer Pensarn yn dangos union leoliad y tyrbin, nac ychwaith yr onglau ar gyfer pob eiddo cyfagos, felly sut gall y cyngor roddi caniatâd cynllunio pan mae cyfarwyddyd llym ynghylch lleoli tyrbinau gwynt a chanlyniadau fflachiadau cysgodion.
- Yn bedwerydd, dywed canllawiau'r llywodraeth, oherwydd bod llafnau'r rotor yn gallu casglu rhew mewn tywydd oer a thaflu darnau mawr o rew am bellteroedd maer, ni ddylid adeiladu tyrbinau gwynt o fewn 400 metr i unrhyw annedd.

Derbyniwyd un llythyr yn cadarnhau nad oes gan y perchenogion tir unrhyw wrthwynebiad i'r cais i godi tyrbin gwynt ar eu tir nhw.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

Dim hanes cynllunio o bwys.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Egwyddor y datblygiad**

Dywed Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:." "There will be a presumption in favour of renewable energy projects provided that the impacts upon the locality is acceptable to the local planning authority. Where applicable, the proposals should be supported by an environmental assessment."

Dywed Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:
"Renewable energy projects will be permitted where it can be clearly demonstrated that there will not be any unacceptable impact on i. Landscape character, ii. Sites of international, national or local importance for nature conservation, iii. species which are of nature conservation importance iv. the standard of amenity enjoyed by the resident and tourist population and vi. Essential public services and communications.

Dywed Polisi 8B – Datblygiadau Ynni, Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd ".
Applications for the development of renewable and non-renewable energy resources will be permitted where it can be demonstrated that there will be no unacceptable adverse impact upon the environment. Preference will be given to the development of clean and renewable energy sources, but proposals for non-renewable energy projects will be permitted if they encourage the maximum use of energy efficiency within their design

Roedd Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 4 Chwefror 2011) yn cynnwys newidiadau i rannau 12.8 a 12.8.10 sy'n cyfeirio at 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel'.

Mae adran ddiwygiedig yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy a hynny'n unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010).

Mae'r dyfyniadau isod yn amlygu'r gefnogaeth hon.

Dywed paragraff 12.8.1

*"and maximise renewable and low carbon energy generation at every scale across Wales...."*

Dywed paragraff 12.8.2

*"Planning policy at all levels should facilitate delivery of both the Assembly Government's overall Energy Policy statement, and UK and European targets on renewable energy."*

Dywed paragraff 12.8.9:

*"Local planning authorities should facilitate the development of all forms of renewable and low carbon energy…"*

Mae Rhan 12.10.1 a atgynhyrchir isod yn dwyn sylw at y materion hynny y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth ddelio gyda datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r isadeiledd cysylltiedig. Mae'n cynnwys yr agweddau cadarnhau megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewrop a'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae'n dwyn sylw hefyd at yr angen i ystyried yr effaith ar dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol ar angen i effeithio cyn lleied â phosib ar gymunedau lleol. Mae materion eraill megis camau lliniaru a materion isadeiledd, hy cysylltu i'r grid a'r rhwydwaith trafnidiaeth hefyd yn cael sylw yn y rhan hon.

*12.10.1 In determining applications for renewable and low carbon energy development and associated infrastructure local planning authorities should take into account:*

- *the contribution a proposal will play in meeting identified national32, UK and European targets and potential for renewable energy, including the contribution to cutting greenhouse gas emissions;*
- *the wider environmental, social and economic benefits and opportunities from renewable and low carbon energy development;*
- *the impact on the natural heritage (See Section 5.5), the Coast ( See Section 5.6) and the Historic Environment (See Section 6.5);*

- *the need to minimise impacts on local communities, to safeguard quality of life for existing and future generations;*
- *ways to avoid, mitigate or compensate identified adverse impacts;*
- *the impacts of climate change on the location, design, build and operation of renewable and low carbon energy development. In doing so consider whether measures to adapt to climate change impacts give rise to additional impacts (see 4.2);*
- *grid connection issues where renewable (electricity) energy developments are proposed; and*
- *the capacity of, and effects on, the transportation network relating to the construction and operation of the proposal.*

O'r herwydd, mae Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011) yn cefnogi'n gryf ddatblygiadau ynni adnewyddadwy carbon isel a'u rôl o ran cwrdd â thargedau cenedlaethol.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) "TAN 8" yn cynnwys canllawiau manwl ynghylch datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar Ddatblygiadau Ynni Gwynt yn berthnasol iawn i gynigion ar gyfer tyrbinau gwynt bychan.

Fe wyddys yr Aelodau hefyd am y Fenter Ynys Ynni sy'n ceisio creu swyddi drwy brosiectau niwclear ac ynni adnewyddadwy.

Mae'r polisïau a restrir uchod yn rhagdybio o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn amodol ar gwrdd â'r meini prawf a restrwyd, ac mae'n ystyriaeth o bwys yn yr achos hwn nad oes unrhyw effaith annerbyniol ar gymeriad y dirwedd a mwynderau preswyl a ystyrir ymhellach isod.

**Y Dirwedd ac Effaith Weledol**

Byddai'r tyrbin arfaethedig yn cael ei leoli mewn uchel a bryniog sy'n rhan o ardal a ddynodir yn Ardal Tirwedd Arbennig dan ddarpariaethau polisi 31 Cynllun Lleol Ynys Môn, D3 Cynllun Fframwaith Gwynedd ac EN1 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd. Tir ffermio ydyw gyda golygfeydd amlwg o beilonau a golygfeydd mwy pellennig o "Fynydd Parys" i'r gogledd-ddwyrain a ffermydd gwynt sydd eisoes yn bodoli. Daethpwyd i'r casgliad nad yw maint y cynnig cyfredol yn debygol o fod yn niweidiol i gymeriad y dirwedd nac yn achosi effaith gronnol niweidiol pan edrychir arnynt gyda nodweddion eraill megis peilonau.

**Mwynderau Preswyl**

Mae Adain Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor wedi cadarnhau eu bod yn fodlon cymeradwyo dau dyrbin gwynt hyd at 15m o uchder i'r hwb, rotorau sydd hyd at 8.5m o ddiamedr a hyd at 11.5kw o gryfder yn y lleoliad hwn. Mae'r amod hwn yn golygu y bydd raid i'r datblygwyr gael caniatâd ysgrifenedig ar gyfer manylion y tyrbin a bydd rhaid i hwn gydymffurfio gyda'r amod ynghylch sŵn sy'n pennu na ddylai'r sŵn a ddaw o'r tyrbin fod yn uwch na 40dB $L_{Aeq\ (5\ mun)}$ neu 5dB(A) uwchlaw'r $L_{90}$ lefel swn yn y cefndir.

Byddai modd gweld y tyrbinau arfaethedig o brif ddrychiadau tai lleol. Yn wyneb y ffaith bod y cynnig yn un am un tyrbin gwynt, y pellter o'r tai; nid ystyrir y byddant yn cael annerbyniol ar olygfeydd yr anheddau hyn. Nid yw'r effaith ar werth eiddo yn ystyriaeth o bwys y gellir rhoddi llawer o bwysau arno yn yr asesiad hwn.

Mae'r term "fflachiadau cysgodion" yn cyfeirio at yr effaith fflachiog a geir pan fo llafnau tyrbinau gwynt yn taflu cysgodion dros eiddo cyfagos wrth iddynt droi drwy agoriadau cyfyng megis ffenestri. Mae'r argymhelliad cyfredol yn y 'Companion Guide PPS22 (2004)' yn dweud bod effeithiau fflachiadau cysgodion sydd o fewn 130 gradd y naill ochr i'r gogledd yn dderbyniol, a hefyd y pellter diamedr 10 rotor o'r eiddo agosaf. Nid oes unrhyw eiddo preswyl o fewn yr ardal hon sy'n debygol o gael eu heffeithio. Argymhellwyd amod sy'n golygu y bydd raid i'r datblygwyr ddarparu camau lliniaru ar gyfer unrhyw achosion a all ddigwydd

gan fod y cyfarwyddyd yn dweud na fydd un dull unffurf o weithio efallai yn addas gan ddibynnu ar ledred y safle.

**Radar ac Awyrennau'n Hedfan yn Isel**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r cynigion ar y sail y byddent yn creu rhwystr ffisegol i awyrennau milwrol neu'n tarfu ar osodiadau Rheoli Traffig Awyr a radar Amddiffyn yr Awyr.

**Cadwraeth Natur**

Mae'r RSPB wedi dweud y dylid cymryd sylw o Ganllawiau'r Alban sy'n cynnwys canllawiau ar yr effeithiau tebygol ar gynefinoedd rhywogaethau a ddiogelir.

Nid yw Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol y Cyngor wedi gwneud unrhyw sylwadau ar y cynnig ond mae wedi ystyried llythyr y gwrthwynebydd yn fanwl ac wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw beth i awgrymu unrhyw beth sylweddol o ran bywyd gwyllt.

**Materion Eraill**

Deellir nad yw tyrbinau gwynt bychan yn arwain at broblemau o ran derbyn rhaglenni ar y teledu. Argymhellwyd gosod amod sy'n golygu y byddai'n rhaid i'r datblygwr gywiro unrhyw broblemau o ran derbyn rhaglenni teledu.

Wedi ystyried y cyngor sydd yn Atodiad C, paragraffau 2.19 a 2020 TAN 8 nid yw'r cynigion, o safbwynt Iechyd a Diogelwch, yn agos at unrhyw ffyrdd neu adeiladau.

Deellir y bydd cais ar wahân yn cael ei gyflwyno gan yr ymgymerwr statudol o ran cysylltu i'r grid ac o'r herwydd, nid oes angen gwneud penderfyniad ar hyn wrth ystyried y cais cyfredol.

**7. Casgliad**

Mae'r polisïau a ystyriwyd yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar yr ystyriaethau manwl sydd wedi cael eu hasesu uchod fel rhai derbyniol. Yr argymhelliad yw caniatáu pwerau dirprwyedig i'r swyddogion gymeradwyo'r cais wedi i'r cyfnod hysbysu ddod i ben ac wedi derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghori.

**8. Argymhelliad**

Caniatáu pwerau dirprwyedig i'r swyddogion **ganiatáu**'r cais gyda'r amodau isod wedi i'r cyfnod hysbysu ddod i ben ar 14.10.11 ac ar ôl derbyn unrhyw ymatebion ychwanegol i'r ymgynghori:

**(01) Cychwynnir gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma dim hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm : Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae'r caniatâd cynllunio am gyfnod a fydd ddim yn hwy na 25 blynedd ("y cyfnod 25 blynedd") o'r dyddiad y bydd y datblygiad yn cael ei gysylltu i'r grid trydan ("y grid") am y tro cyntaf. Hysbysir yr awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig am ddyddiadau'r (a) cyswllt cyntaf i'r grid a (b) gweithrediad llawn y tyrbin "y comisiynu" a hynny o fewn 28 diwrnod i'r ddau beth hyn ddigwydd.**

Rheswm: Fel y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r sefyllfa yn wyneb yr amgylchiadau sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod.

**(03) Ni fydd y dyrbin sydd yn cael ei gymeradwyo yma dros:**

| | |
|---|---|
| **19.85 metr** | **Uchder mwyaf y llafn *(*i ben y llafn pan mae'n fertigol)** |
| **15 metr** | **Uchder mwyaf yr hwb** |
| **9.7 metr** | **Diamedr mwyaf y rotor** |
| **10 kw** | **Y pwer uchaf a ganiateir** |

**Ni fydd unrhyw dyrbin gwynt yn cael ei osod ar y safle hyd oni fydd manylion am y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, lleoliad y trawsnewidydd, graddfa pwer, lefelau swn, gorffenwaith allanol a lliw'r tyrbin arfaethedig wedi cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.**

Rheswm: Diffinio sgôp y caniatâd yn wyneb effaith y datblygiad fel y cafodd ei asesu.

**(04) Ar ddiwedd y cyfnod 25 blynedd, bydd y tyrbin yn cael ei dadgomisiynu a bydd yr holl strwythurau sydd uwchben y ddaear yn cael eu symud o'r safle. 12 mis cyn dadgomisiynu'r tyrbin, bydd cynllun ysgrifenedig ar gyfer adfer y safle ("y cynnlun dadgomisiynu") yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun dadgomisiynu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud i ffwrdd â'r tyrbin wynt a'i hoffer cysylltiedig ategol i ddyfnder a fydd o leiaf 1m dan y ddaear. Bydd yr holl waith dadgomisiynu ac adfer yn cael eu gyflawni'n unol â'r cynllun dadgomisiynu fel y cafodd ei gymeradwyo ac yn unol â'r amserlen ynddo.**

Rheswm: Sicrhau bod y safle'n edrych yn foddhaol wedi i'r datblygiad ddod i ben.

**(05) Os bydd unrhyw dyrbin gwynt a ganiateir yma yn methu cynhyrchu trydan ar gyfer ei gyflenwi i'r grid am gyfnod di-dor o 12 mis, yna bydd y tyrbin gwynt a'i offer cysylltiedig ategol yn cael eu tynnu i lawr i ddyfnder a fydd o leiaf 1m dan y ddaear a'u symud o'r safle a bydd y tir yn cael ei adfer o fewn cyfnod o 6 mis o'r cyfnod 12 mis hwnnw yn unol â chynllun ("y cynllun symud ymaith") a fydd wedi ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo cyn cychwyn gwaith ar y datblygiad. Bydd y datblygwr yn darparu gyflwyno gweithredol ysgrifenedig ar gyfer y tyrbin i'r awdurdod cynllunio wedi derbyn cais rhesymol ysgrifenedig am y wybodaeth honno.**

Rheswm: Er budd mwyderau'r ardal leol.

**(06) O fewn 6 mis o'r "comisiynu" ac wedi derbyn cais ygrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol gan gynnwys unrhyw amserlenni a bennir ynddo, bydd cynllun lliniaru ysgrifenedig gan gynnwys amserlen ("y cynllun lliniaru) yn nodi manylion am y gwaith sy'n angenrheidiol i liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar signalau teledu a radio domestig yn yr ardal a achosir gan y datblygiad yn cael ei gyflwyno i a'i gymeradwy'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cynllun lliniaru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymchwilio i a delio gydag unrhyw hawliad gan unrhyw berson am unrhyw golled neu ymyriad domestig yn eu cartref a bydd rhaid gwneud unrhyw waith lliniaru yn unol â'r cynllun lliniaru a gymeradwywyd.**

Rheswm: Gwarchod mwynderau'r ardal.

**(07)  O fewn 12 mis o'r "comisiynu" ac wedi derbyn cais ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol gan gynnwys unrhyw amserlenni ynddo; bydd cynllun ysgrifenedig i liniaru unrhyw achosion o fflachiadau cysgodion mewn unrhyw eiddo a effeithir gan gynnwys amserlen ("y cynllun lleddfu") yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig danddo.  Bydd y datblygiad yn cael ei weithredu wedyn yn unol â'r "cynllun lleddfu".**

Rheswm: Gwarchod mwynderau trigolion yr eiddo cyfagos.

**(08)  Bydd yr holl geblau ar y safle rhwng y tyrbin wynt a'r is-orsaf ar y safle yn cael eu gosod dan y ddaear.**

Rheswm: Er budd mwynderau.

**(09)  Ni chychwynnir unrhyw waith ar y datblygiad hyd oni fydd yr isod wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.**

- **Dyddiadau cychwyn a gorffen y gwaith adeiladu.**
- **Uchder eithaf unrhyw offer adeiladu pan fo wedi'i ymestyn.**
- **Lledred a hydred y tyrbin**

**Bydd y datblygiad wedyn yn cael ei weithredu'n gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd dan ddarpariaethau'r amod hwn.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod awyrennau militaraidd yn osgoi'r ardal ac yn osgoi perygl gwrthdrawiad.

**(10) Ni fydd unrhyw dyrbin gwynt yn cael ei osod ar y safle hyd oni fydd manylion yn cadarnhau'r isod wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo:**

**1) Dim ond person addas, cymwys fydd yn cael gosod y tyrbin a hynny'n unol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac arolwg safle a bydd cadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfio yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 14 diwrnod i gwblhau gosod y tyrbin.**

**2) Bydd y tyrbin gwynt yn cael eu chynnal a'i chadw'n unol ag argymhellion y gwneuthurwr a gall yr awdurdod cynllunio lleol ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfiad â gwasanaethu o'r fath ar gais rhesymol.**

**3) Ni fydd y swn o'r tyrbin yn uwch na 40dB $L_{Aeq\ (5\ mun)}$ neu 5dB(A) uwchlaw lefelau'r swn cefndirol o $L_{90}$ o ffasâd unrhyw eiddo cyfagos y mae rhywun yn byw ynddo ac sydd ddim ym mherchenogaeth yr ymgeisydd.  Lle mae'r rhan agosaf o unrhyw eiddo cyfagos uwchlaw lefel y ddaear, bydd lefel y swn yn cael ei fonitro 1m o'r ffasâd a chywiriad ffasâd o 3dB(A) yn cael ei wneud. Bydd data monitor yn cael ei gadw gan y datblygwr am chew mlynedd a chopiau ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol ar gais rhesymol.**

**4)  Ni fydd y tyrbinau gwynt o naws donyddol.**

**Bydd y datblygiad o hyn allan yn cael ei weithredu a'i gadw'n unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan y ddarpariaeth yn yr amod.**

Rheswm: Er bydd mwynderau deiliaid anheddau cyfagos.

**Gwybodaeth**

Memo draenio 02/08/11

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
FF11 (Traffig)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 (Polisi Cyffredinol

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP1 (Canllawiau Rheoli Datblygu)

**11.5** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **44C288** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Kinetica Energy Ltd**
**c/o RGR Partnership**
**1st Floor NatWest Bank Building**
**Glanhwfa Road**
**Llangefni**
**LL77 7EN**

Codi twrbin wynt gyda uchder hwn hyd at uchafswm o 15 medr, diamedr rotor hyd at uchafswm o 9.7 medr a uchder blaen unionsyth vertigol hyd at uchafswm o 19.85 medr ar dir yn

Erection of a wind turbine with a maximum hub height of up to 15 metres, rotor diameter of up to 9.7 metres and a maximum upright vertical tip height of up to 19.85 metres on land at

Pensarn, Rhosgoch



**Pwyllgor Cynllunio: 05/10/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd dod ffi'r cais wedi cael ei thaflu gan gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn am un tyrbin gwynt gydag uchder hwb o 15 metr, uchder mwyaf i ben y llafn o 19.85 metr ac uchafswm diamedr rotor o 9.7 metr. Byddai'r cais cynllunio yn hytrach yn pennu'r uchder, y diamedr rotor a'r graddfa pwer uchaf. Gellir disgrifio'r cynnig felly fel tyrbinau gwynt bychan.

Roedd cynnydd bychan yn niamder y rotor ac uchder y tyrbin o ganlyniad i hynny wrthi'n cael ei hysbysebu a'i ymgynghori arno ar adeg ysgrifennu.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol
- Mwynderau preswyl
- Materion Radar y Weinyddiaeth Amddiffyn a Hedfan Isel
- Cadwraeth Natur

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
C7 Ynni Adnewyddadwy
D3 Ardal Cadwraeth Tirwedd

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
31 Tirwedd
41 Cadwraeth Adeiladau
45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
8b Datblygiadau Ynni
EP 18 Ynni Adnewyddadwy
EN1 Cymeriad y Dirwedd

**Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011)**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Canllawiau Cynllunio Atodol**
**Datblygiadau Ynni (Ionawr 1994)**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Aelod Lleol** – Gofynnodd am gael cyflwyno'r cais i'r Pwyllgor Cynllunio yn y lle cyntaf oherwydd yr effaith ar eiddo preswyl yn Clydfan, Rhosgoch ac eiddo cyfagos.

**Cyngor Cymuned** – Wedi gofyn yn y lle cyntaf am gyfarfod i drafod y cynnig. Ar adeg ysgrifennu, roeddid yn disgwyl sylwadau pellach ar leoliad diwygiedig y tyrbin.

**Priffyrdd** – Dim argymhelliad

**Draenio** – Argymhellir gwybodaeth

**Gwasanaethau Amgylcheddol** – Caniatâd gydag amodau o ran cyfyngiadau swn.

**Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylchedd**ol – Byddai'n croesawu petai modd symud y tyrbin ychydig i'r de o'r gwrychyn fel ei fod mor bell ag sy'n bosibl o'r hyn allai fod yn llwybr hedfan i ystlumod.

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn** – Caniatâd amodol

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru** Dim yn gwrthwynebu'r cais. Wedi cadarnhau na fydd y safle yn effeithio naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar nodweddion cyfannol unrhyw safleoedd o ddiddordeb ecolegol, daearegol neu geomorffaidd a ddiogelir yn statudol. Hefyd, nid yw safle'r cais o fewn neu'n union gerllaw ffiniau unrhyw ardaloedd tirwedd a ddiogelir yn statudol.

**RSPB** – Wedi nodi rhai pethau perthnasol sef canllawiau "Scottish National Heritage" ynghylch "Survey Methods for Use in Assessing the Impacts of Onshore Windfarms on Bird Communities" a "Natural Heritage assessment of small scale wind energy projects which do not require formal Environmental Impact Assessment (EIA)"

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd**
Ymddengys nad oes unrhyw oblygiadau archeolegol.

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd un llythyr o wrthwynebiad i'r cais cynllunio am y rhesymau isod:

- Mae lleoliad y tyrbin gwynt yn Pensarn yn golygu y bydd modd i ni ei weld yn glir o'n balconi a ffenestri ein lolfa. Nid yw'n agos o gwbl i eiddo'r ymgeisydd, mewn gwirionedd, mae'n debyg na fydd yr ymgeisydd yn gallu gweld y tyrbin hyd yn oed o'i dy ef.
- Ni chafwyd unrhyw wybodaeth ynghylch yr effaith ar yr amgylchedd. Datgenir yn glir yn rheoliadau ETSU-R 97 dyddiedig 1996 y dylid darparu lefelau swn, ond nid yw hyn wedi cael ei wneud.
- Nid oes unrhyw astudiaethau amgylcheddol i asesu'r effaith ar adar a bywyd gwyllt lleol wedi cael eu cynnal.
- Yr effaith ar dwristiaeth.
- Dylid cynnal ymchwiliad llawn i'r effaith ar yr ardal a'r cynefinoedd lleol (y cwmni sy'n ymgeisio am y caniatâd hwn i dalu amdano).
- Ni ystyriwyd mater fflachiadau cysgodion. Mae hyn o bryder mawr i'r llywodraeth a nifer o awdurdodau lleol oherwydd y gall effeithio ar batrymau cysgu pobl ac felly achosi nifer o broblemau iechd. Nid yw'r cynllun ar gyfer Pensarn yn dangos union leoliad y tyrbin, nac ychwaith yr onglau ar gyfer pob eiddo cyfagos, felly sut gall y cyngor roddi caniatâd cynllunio pan mae cyfarwyddyd llym ynghylch lleoli tyrbinau gwynt a chanlyniadau fflachiadau cysgodion.
- Yn bedwerydd, dywed canllawiau'r llywodraeth, oherwydd bod llafnau'r rotor yn gallu casglu rhew mewn tywydd oer a taflu darnau mawr o rew am bellteroedd maer, ni ddylid adeiladu tyrbinau gwynt o fewn 400 metr i unrhyw annedd.

Derbyniwyd un llythyr yn cadarnhau nad oes gan y perchenogion tir unrhyw wrthwynebiad i'r cais i godi tyrbin gwynt ar eu tir nhw.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim hanes cynllunio o bwys.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Egwyddor y datblygiad**

Dywed Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:." "There will be a presumption in favour of renewable energy projects provided that the impacts upon the locality is acceptable to the local planning authority. Where applicable, the proposals should be supported by an environmental assessment."

Dywed Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:
"Renewable energy projects will be permitted where it can be clearly demonstrated that there will not be any unacceptable impact on i. Landscape character, ii. Sites of international, national or local importance for nature conservation, iii. species which are of nature conservation importance iv. the standard of amenity enjoyed by the resident and tourist population and vi. Essential public services and communications.

Dywed Polisi 8B – Datblygiadau Ynni, Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd ".
Applications for the development of renewable and non-renewable energy resources will be permitted where it can be demonstrated that there will be no unacceptable adverse impact upon the environment. Preference will be given to the development of clean and renewable energy sources, but proposals for non-renewable energy projects will be permitted if they encourage the maximum use of energy efficiency within their design

Roedd Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 4 Chwefror 2011) yn cynnwys newidiadau i rannau 12.8 a 12.8.10 sy'n cyfeirio at 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel'.

Mae adran ddiwygiedig yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy a hynny'n unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010).

Mae'r dyfyniadau isod yn amlygu'r gefnogaeth hon.

Dywed paragraff 12.8.1

*"and maximise renewable and low carbon energy generation at every scale across Wales...."*

Dywed paragraff 12.8.2

*"Planning policy at all levels should facilitate delivery of both the Assembly Government's overall Energy Policy statement, and UK and European targets on renewable energy."*

Dywed paragraff 12.8.9:

*"Local planning authorities should facilitate the development of all forms of renewable and low carbon energy…"*

Mae Rhan 12.10.1 a atgynhrchir isod yn dwyn sylw at y materion hynny y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth ddelio gyda datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r isadeiledd cysylltiedig. Mae'n cynnwys yr agweddau cadarnhau megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewrop a'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae'n dwyn sylw hefyd

at yr angen i ystyried yr effaith ar dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol ar angen i effeithio cyn lleied â phosib ar gymunedau lleol. Mae materion eraill megis camau lliniaru a materion isadeiledd, hy cysylltu i'r grid a'r rhwydwaith trafnidaeth hefyd yn cael sylw yn y rhan hon.

*12.10.1 In determining applications for renewable and low carbon energy development and associated infrastructure local planning authorities should take into account:*

- *the contribution a proposal will play in meeting identified national32, UK and European targets and potential for renewable energy, including the contribution to cutting greenhouse gas emissions;*
- *the wider environmental, social and economic benefits and opportunities from renewable and low carbon energy development;*
- *the impact on the natural heritage (See Section 5.5), the Coast ( See Section 5.6) and the Historic Environment (See Section 6.5);*
- *the need to minimise impacts on local communities, to safeguard quality of life for existing and future generations;*
- *ways to avoid, mitigate or compensate identified adverse impacts;*
- *the impacts of climate change on the location, design, build and operation of renewable and low carbon energy development. In doing so consider whether measures to adapt to climate change impacts give rise to additional impacts (see 4.2);*
- *grid connection issues where renewable (electricity) energy developments are proposed;and*
- *the capacity of, and effects on, the transportation network relating to the construction and operation of the proposal.*

O'r herwydd, mae Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011) yn cefnogi'n gryf ddatblygiadau ynni adnewyddadwy carbon isel a'u rôl o ran cwrdd â thargedau cenedlaethol.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) "TAN 8" yn cynnwys canllawiau manwl ynghylch datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar Ddatblygiadau Ynni Gwynt yn berthnasol iawn i gynigion ar gyfer tyrbinau gwynt bychan.

Fe wyddys yr Aelodau hefyd am y Fenter Ynys Ynni sy'n ceisio creu swyddi drwy brosiectau niwclear ac ynni adnewyddadwy.

Mae'r polisïau a restrir uchod yn rhagdybio o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn amodol ar gwrdd â'r meini prawf a restrwyd, ac mae'n ystyriaeth o bwys yn yr achos hwn nad oes unrhyw effaith annerbyniol ar gymeriad y dirwedd a mwynderau preswyl a ystyrir ymhellach isod.

**Y Dirwedd ac Effaith Weledol**

Mae'r safle arfaethedig yn goleddfu at y gyffordd yn Rhosgoch gyda tirwedd fryniog gyda chreigiau a neu greigiau wedi eu gorchuddio ag eithion. Ychydig iawn o goed a gwrychoedd sydd yma, fel arfer maent wedi'u cyfyngu i leoliadau cysgodol sy'n rhan o'r ardal a ddynodir yn Ardal Dirwedd Arbennig dan ddarpariaethau polisi 31 Cynllun Lleol Ynys Môn, D3 Cynllun Fframwaith Gwynedd ac EN1 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd. Tir ffermio ydyw gyda golygfeydd amlwg o beilonau a golygfeydd mwy pellennig o "Fynydd Parys" i'r gogledd-ddwyrain a ffermydd gwynt sydd eisoes yn bodoli. Daethpwyd i'r casgliad nad yw maint y cynnig cyfredol yn debygol o fod yn niweidiol i gymeriad y dirwedd nac yn achosi effaith gronnol niweidiol pan edrychir arnynt gyda nodweddion eraill megis peilonau.

**Mwynderau Preswyl**

Mae Adain Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor wedi cadarnhau eu bod yn fodlon cymeradwyo. Dylid cael amod fel y bydd raid i'r datblygwyr gael caniatâd ysgrifenedig ar gyfer manylion y tyrbin a bydd rhaid i hwn gydymffurfio gyda'r amod ynghylch swn sy'n pennu na ddylai'r swn a ddaw o'r tyrbin fod yn uwch na

40dB $L_{Aeq\ (5\ mun)}$ neu 5dB(A) uwchlaw'r $L_{90}$ lefel swn yn y cefndir.

Byddai modd gweld y tyrbinau arfaethedig o brif ddrychiadau tai lleol.  Yn wyneb y ffaith bod y cynnig yn un am un dyrbin gwynt, y pellter o'r tai; nid ystyrir y byddant yn cael annerbyniol ar olygfeydd yr anheddau hyn. Nid yw'r effaith ar werth eiddo yn ystyriaeth o bwys y gellir rhoddi llawer o bwysau arno yn yr asesiad hwn.

Mae'r term "fflachiadau cysgodion" yn cyfeirio at yr effaith fflachiog a geir pan fo llafnau tyrbinau gwynt yn taflu cysgodion dros eiddo cyfagos wrth iddynt droi drwy agoriadau cyfyng megis ffenestri.  Mae'r argymhelliad cyfredol yn y 'Companion Guide PPS22 (2004)' yn dweud bod effeithiau fflachiadau cysgodion sydd o fewn 130 gradd y naill ochr i'r gogledd yn dderbyniol, a hefyd y pellter diamedr 10 rotor o'r eiddo agosaf.  Nid oes unrhyw eiddo preswyl o fewn yr ardal hon sy'n debygol o gael eu heffeithio.  Argymhellwyd amod sy'n golygu y bydd raid i'r datblygwyr ddarparu camau lliniaru ar gyfer unrhyw achosion a all ddigwydd gan fod y cyfarwyddyd yn dweud na fydd un dull unffurf o weithio efallai yn addas gan ddibynnu ar ledred y safle.

**Radar ac Awyrennau'n Hedfan yn Isel**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cadarnhau nad oes gennynt wrthwynebiad i'r cynigion ar y sail y byddent yn creu rhwystr ffisegol i awyrennau miliwrol neu'n tarfu ar osodiadau Rheoli Traffig Awyr a radar Amddiffyn yr Awyr.

**Cadwraeth Natur**

Mae'r RSPB wedi dweud y dylid cymryd sylw o Ganllawiau'r Alban sy'n cynnwys canllawiau ar yr effeithiau tebygol ar gynefinoedd rhywogaethau a ddiogelir.

Nid yw Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol y Cyngor wedi gwneud unrhyw sylwadau ar y cynnig ond mae wedi ystyried llythyr y gwrthwynebydd yn fanwl ac wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw beth i awgrymu unrhyw beth sylweddol o ran bywyd gwyllt.

**Materion Eraill**

Deellir nad yw tyrbinau gwynt bychan yn arwain at broblemau o ran derbyn rhaglenni ar y teledu. Argymhellwyd gosod amod sy'n golygu y byddai'n rhaid i'r datblygwr gywiro unrhyw broblemau o ran derbyn rhaglenni teledu.

Wedi ystyried y cyngor sydd yn Atodiad C, parargraffau 2.19 a 2020 TAN 8 nid yw'r cynigion, o safbwynt Iechyd a Diogelwch, yn agos at unrhyw ffyrdd neu adeiladau.

Deellir y bydd cais ar wahân yn cael ei gyflwyno gan yr ymgymerwr statudol o ran cysylltu i'r grid ac o'r herwydd, nid oes angen gwneud penderfyniad ar hyn wrth ystyried y cais cyfredol.

**7. Casgliad**

Mae'r polisïau a ystyriwyd yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar yr ystyriaethau manwl sydd wedi cael eu hasesu uchod fel rhai derbyniol.  Yr argymhelliad yw caniatáu pwerau dirprwyedig i'r swyddogion gymeradwyo'r cais wedi i'r cyfnod hysbysu ddod i ben ac wedi derbyn  yr holl ymatebion i'r ymgynghori.

**8. Argymhelliad**

Caniatáu pwerau dirprwyedig i'r swyddogion **ganiatáu**'r cais gyda'r amodau isod wedi i'r cyfnod hysbysu

ddod i ben ar 14.10.11 ac ar ôl derbyn unrhyw ymatebion ychwanegol i'r ymgynghori:

**(01) Cychwynnir gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma dim hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm : Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae'r caniatâd cynllunio am gyfnod a fydd ddim yn hwy na 25 blynedd ("y cyfnod 25 blynedd") o'r dyddiad y bydd y datblygiad yn cael ei gysylltu i'r grid trydan ("y grid") am y tro cyntaf. Hysbysir yr awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig am ddyddiadau'r (a) cyswllt cyntaf i'r grid a (b) gweithrediad llawn y tyrbin "y comisiynu" a hynny o fewn 28 diwrnod i'r ddau beth hyn ddigwydd.**

Rheswm: Fel y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r sefyllfa yn wyneb yr amgylchiadau sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod.

**(03) Ni fydd y dyrbin sydd yn cael ei gymeradwyo yma dros:**

| | |
|---|---|
| **19.85 metr** | **Uchder mwyaf y llafn *(*i ben y llafn pan mae'n fertigol)** |
| **15 metr** | **Uchder mwyaf yr hwb** |
| **9.7 metr** | **Diamedr mwyaf y rotor** |
| **10 kw** | **Y pwer uchaf a ganiateir** |

**Ni fydd unrhyw dyrbin gwynt yn cael ei osod ar y safle hyd oni fydd manylion am y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, lleoliad y trawsnewidydd, graddfa pwer, lefelau swn, gorffenwaith allanol a lliw'r tyrbin arfaethedig wedi cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.**

Rheswm: Diffinio sgôp y caniatâd yn wyneb effaith y datblygiad fel y cafodd ei asesu.

**(04) Ar ddiwedd y cyfnod 25 blynedd, bydd y tyrbin yn cael ei dadgomisiynu a bydd yr holl strwythurau sydd uwchben y ddaear yn cael eu symud o'r safle. 12 mis cyn dadgomisiynu'r tyrbin, bydd cynllun ysgrifenedig ar gyfer adfer y safle ("y cynnlun dadgomisiynu") yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun dadgomisiynu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud i ffwrdd â'r tyrbin wynt a'i hoffer cysylltiedig ategol i ddyfnder a fydd o leiaf 1m dan y ddaear. Bydd yr holl waith dadgomisiynu ac adfer yn cael eu gyflawni'n unol â'r cynllun dadgomisiynu fel y cafodd ei gymeradwyo ac yn unol â'r amserlen ynddo.**

Rheswm: Sicrhau bod y safle'n edrych yn foddhaol wedi i'r datblygiad ddod i ben.

**(05) Os bydd unrhyw dyrbin gwynt a ganiateir yma yn methu cynhyrchu trydan ar gyfer ei gyflenwi i'r grid am gyfnod di-dor o 12 mis, yna bydd y tyrbin gwynt a'i offer cysylltiedig ategol yn cael eu tynnu i lawr i ddyfnder a fydd o leiaf 1m dan y ddaear a'u symud o'r safle a bydd y tir yn cael ei adfer o fewn cyfnod o 6 mis o'r cyfnod 12 mis hwnnw yn unol â chynllun ("y cynllun symud ymaith") a fydd wedi ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo cyn cychwyn gwaith ar y datblygiad. Bydd y datblygwr yn darparu gyflwyno gweithredol ysgrifenedig ar gyfer y tyrbin i'r awdurdod cynllunio wedi derbyn cais rhesymol ysgrifenedig am y wybodaeth honno.**

Rheswm: Er budd mwyderau'r ardal leol.

**(06) O fewn 6 mis o'r "comisiynu" ac wedi derbyn cais ygrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol gan gynnwys unrhyw amserlenni a bennir ynddo, bydd cynllun lliniaru ysgrifenedig gan gynnwys amserlen ("y cynllun lliniaru) yn nodi manylion am y gwaith sy'n angenrheidiol i liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar signalau teledu a radio domestig yn yr ardal a achosir gan y datblygiad yn cael ei gyflwyno i a'i gymeradwy'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cynllun lliniaru yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymchwilio i a delio gydag unrhyw hawliad gan unrhyw berson am unrhyw golled neu ymyriad domestig yn eu cartref a bydd rhaid gwneud unrhyw waith lliniaru yn unol â'r cynllun lliniaru a gymeradwywyd.**

Rheswm: Gwarchod mwynderau'r ardal.

**(07) O fewn 12 mis o'r "comisiynu" ac wedi derbyn cais ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol gan gynnwys unrhyw amserlenni ynddo; bydd cynllun ysgrifenedig i liniaru unrhyw achosion o fflachiadau cysgodion mewn unrhyw eiddo a effeithir gan gynnwys amserlen ("y cynllun lleddfu") yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig danddo. Bydd y datblygiad yn cael ei weithredu wedyn yn unol â'r "cynllun lleddfu".**

Rheswm: Gwarchod mwynderau trigolion yr eiddo cyfagos.

**(08) Bydd yr holl geblau ar y safle rhwng y tyrbin wynt a'r is-orsaf ar y safle yn cael eu gosod dan y ddaear.**

Rheswm: Er budd mwynderau.

**(09) Ni chychwynnir unrhyw waith ar y datblygiad hyd oni fydd yr isod wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.**

- **Dyddiadau cychwyn a gorffen y gwaith adeiladu.**
- **Uchder eithaf unrhyw offer adeiladu pan fo wedi'i ymestyn.**
- **Lledred a hydred y tyrbin**

**Bydd y datblygiad wedyn yn cael ei weithredu'n gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd dan ddarpariaethau'r amod hwn.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod awyrennau militaraidd yn osgoi'r ardal ac yn osgoi perygl gwrthdrawiad.

**(10) Ni fydd unrhyw dyrbin gwynt yn cael ei osod ar y safle hyd oni fydd manylion yn cadarnhau'r isod wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo:**

**1) Dim ond person addas, cymwys fydd yn cael gosod y tyrbin a hynny'n unol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac arolwg safle a bydd cadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfio yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol o fewn 14 diwrnod i gwblhau gosod y tyrbin.**

**2) Bydd y tyrbin gwynt yn cael eu chynnal a'i chadw'n unol ag argymhellion y gwneuthurwr a gall yr awdurdod cynllunio lleol ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o gydymffurfiad â gwasanaethu o'r fath ar gais rhesymol.**

**3) Ni fydd y swn o'r tyrbin yn uwch na 40dB $L_{Aeq\ (5\ mun)}$ neu 5dB(A) uwchlaw lefelau'r swn cefndirol o $L_{90}$ o ffasâd unrhyw eiddo cyfagos y mae rhywun yn byw ynddo ac sydd ddim ym mherchenogaeth yr ymgeisydd. Lle mae'r rhan agosaf o unrhyw eiddo cyfagos uwchlaw lefel y ddaear, bydd lefel y swn**

**yn cael ei fonitro 1m o'r ffasâd a chywiriad ffasâd o 3dB(A) yn cael ei wneud. Bydd data monitor yn cael ei gadw gan y datblygwr am chew mlynedd a chopiau ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol ar gais rhesymol.**

**4) Ni fydd y tyrbinau gwynt o naws donyddol.**

**Bydd y datblygiad o hyn allan yn cael ei weithredu a'i gadw'n unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan y ddarpariaeth yn yr amod.**

Rheswm: Er bydd mwynderau deiliaid anheddau cyfagos.

**Gwybodaeth**

Memo draenio 02/08/11

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
FF11 (Traffig)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
1 (Polisi Cyffredinol

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**
GP1 (Canllawiau Rheoli Datblygu)

## 11.6 Gweddill y Ceisiadau Remainder Applications

Rhif y Cais: **49C155B** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr. & Mrs. G. O. Parry**
**c/o ERW Consulting**
**Llys Elwen,**
**Engedi,**
**Bryngwran,**
**Anglesey,**
**LL65 3RR**

Cais amlinellol ar gyfer codi dau annedd, modurdai ynghyd ag addasu y fynedfa i gerbydau yn

Outline application for the erection of two dwellings, garages together with alterations to the vehicular access at

Hafod yr Ynys, Valley



**Pwyllgor Cynllunio: 05/10/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (NJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn un sy'n cael ei gyflwyno gan Aelod o'r Cyngor. Mae'r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.19.4 y Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cynnig amlinellol yw hwn gyda rhai materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer codi pâr o anheddau ar dir sy'n ffurfio rhan o ardd Hafod yr Ynys ac ar ran lle yr arferai tŷ bychan sefyll, gyda darnau o'i weddillion yn dal i'w gweld.

Mae'r anheddau fel y maent wedi'u cyflwyno (y gosodiad, graddfa a'r datblygiad a manylion mynedfa yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gyda'u hedrychiad a thirlunio'r safle yn unig wedi'u cadw'n ôl i'w cymeradwyo yn y dyfodol) wedi'u trefnu i adlewyrchu ei gilydd gyda dreif fynedfa'n cael ei rhannu a hefyd mannau troi a pharcio.

Dangosir ardal garej yn cael ei rhannu a bydd i bob un ohonynt ei ardal gardd breifat ei hun. Bydd y fynedfa trwodd i'r briffordd oddi ar y fynedfa bresennol sy'n gwasanaethu Hafod yr Ynys ond bwriedir gwneud gwelliannau i wella'r gweledydd yn y gyffordd ac i ledu wyneb y trac ei hun er mwyn hwyluso symudiadau traffig.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion gyda'r cais hwn yw yr egwyddor o ddatblygu, a fydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac a fydd yn effeithio ar ddiogelwch y briffordd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**
Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 26 – Safonau Parcio
Polisi 28 – Llifogydd Llanw ac Afon
Polisi 42 – Dyluniad
Polisi 48 – Meini Prawf Datblygu Tai
Polisi 50 – Anheddau Rhestredig

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**
Polisi A2 – Tir ar gyfer Tai
Polisi A3 – Graddfa a Chyfnodau Datblygiadau Tai Newydd.
Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**
Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi HP4 – Pentrefi

Polisi SG2 – Datblygiad a Llifogydd

**Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 4)**

**Nodyn Cyngor Technegol 12** – Dyluniad

**Nodyn Cyngor Technegol 15** – Datblygu a Risg Llifogydd.

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Yr Aelod Lleol** – Yn fodlon i'r swyddogion ddelio gyda'r cais.

**Cyngor Cymuned** – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Dwr Cymru** – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Priffyrdd** - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Asiantaeth yr Amgylchedd** - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn dwy ffordd. Gosodwyd rhybudd safle ger y safle ac anfonwyd rhybuddion personol i ddeiliaid eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 7 Hydref 2011. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw lythyrau wedi cael eu derbyn yn yr Adran.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

49C155 – Dymchwel yr adfail cyfredol a chodi byngalo ar y safle ar dir ger Hafod yr Ynys, Pont-rhyd-y-bont – Gwrthod 4/11/93.

49C155A – Codi byngalo a garej ar dir ger Hafod yr Ynys, Pont-rhyd-y-bont – Gwrthodwyd 22/5/95 – Gwrthod Apêl 25/10/95.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Yr Egwyddor o Ddatblygu**: Mae Polisi 50 Cynllun Lleol Ynys Môn yn dweud 'ni fydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi fel arfer ond ar gyfer anheddau unigol o fewn neu ar ffin anheddau rhestredig'. Mae'r safle wedi ei leoli o fewn ardal gardd Hafod yr Ynys sydd wedi'i chau i mewn yn ffisegol ac yn weledol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn bleidiol i leoli unrhyw ddatblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac i'w lleoli mewn anheddau gydag argaeledd a gwasanaethau da. Polisi yn seiliedig ar feini prawf yw Polisi 50 ac er mai dim ond un annedd fyddai'n cael ei hystyried fel arfer, mae natur y safle a'r datblygiad a fwriedir yn rhai lle bo'r cynnig yn amlwg o fewn rhan ddatblygedig gyfredol o'r anheddiad ac ni fydd yn ymwthio i mewn i'r dirwedd ddynodedig. Fe all y safle gymryd y datblygiad ac oherwydd bod bwriad i adeiladu'r ddwy uned gyda'i gilydd yn hytrach nag un ar ôl y llall, ni fydd yn tanseilio'r polisi oherwydd na all y safle dderbyn na chymryd unrhyw ddatblygu pellach.

Bu'r safle yn destun ceisiadau yn y gorffennol a gwrthodwyd apêl mewn perthynas â chais i godi un annedd yn 1995. Dylid nodi bod yr apêl yn cyn dyddio dyddiad mabwysiadu Cynllun Lleol Ynys Môn. Y mae hefyd yn cyn dyddio'r cyfarwyddyd ym Mholisi Cynllunio Cymru. Wrth ddrafftio'r Cynllun Lleol fe ffurfiwyd ffin i anheddiad Pont-rhyd-y-bont ond erbyn amser yr apel roedd y pentref wedi'i ddynodi fel Anheddiad

Rhestredig o dan Bolisi 43 fel yr oedd bryd hynny.  Yr ystyriaeth bryd hynny oedd bod yr anheddiad yn ymestyn at ben y bont yn unig ar ochr orllewinol y pentref, ar Ynys Cybi, tra bo'r anheddiad ar ochr ddwyreiniol y bont yn cael ei ystyried yn gefn gwlad agored.  Mae'r dehongliad polisi o dan Bolisi 50 y Cynllun Lleol a fabwysiadwyd a'r cyfarwyddyd geir ym Mholisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â datblygu tai a'r defnydd cynaliadwy o dir yn rhai sy'n nodi'r anheddiad hwn fel rhan o Bont-rhyd-y-bont ac mae'r egwyddor o ddatblygu felly yn dderbyniol.

**Yr effaith ar yr Ardal ac ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol dynodedig** – Mae'r safle yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.  Dynodiad statudol yw hwn sy'n cydnabod ei phwysigrwydd o ran ansawdd y dirwedd ac yn nhermau cadwraeth natur.

Prif amcan y dynodiad AHNE yw cadw a gwella eu harddwch naturiol.  Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i roi sylw i bwrpasau'r AHNE a rhaid i benderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio'r AHNE yn y lle cyntaf fod o blaid cadw eu harddwch naturiol.

Mae safle'r cais wedi'i gau i mewn yn ffisegol ac yn weledol gyda gwrychoedd yn derfynau yn dangos ei faint. Yn amodol ar gadw'r gwrychyn nid ydym yn ystyried y bydd y cynnig yn ymwthio i'r dirwedd ddynodedig. Cais amlinellol yw hwn gydag edrychiad yr anheddau wedi'u cadw'n ôl i'w cymeradwyo yn y dyfodol er bod trefniant ffenestr dormer yn cael ei ddangos.  Mae'r safle'n cael ei rannu oddi wrth dai cymdogion gan drac mynediad a gan y waliau cerrig uchel sy'n diffinio eu terfynau ynghyd ag adeiladau allanol amrywiol a choed gardd.  Nid ydym yn credu y bydd yma edrych drosodd na cholli preifatrwydd fel na fyddai'r datblygiad hwn fel y mae'n cael ei gynnig yn annerbyniol oherwydd hyn, ond yn amodol ar gael dyluniad manwl yn sicrhau na fydd unrhyw ystafelloedd ar y llawr cyntaf yn edrych tros erddi cymdogion.  Mae yna ddigon o le rhwng yr eiddo i sicrhau na fydd unrhyw styrbans yn digwydd.

**Effaith ar Ddiogelwch y Briffordd** - Roedd yr apel flaenorol yn nodi bod y gwelededd i'r chwith (tuag at y Fali) ar ddod allan o'r trac mynediad yn ymestyn rhyw 130m ac i'r chwith (tuag at y bont) i ryw 70m.  Ar yr adeg hynny (1995) roedd safonau gwelededd yn nodi pellter o 90m o leiniau gwelededd fel y gweledd oedd ei angen.  Nid oedd yr Arolygwr, fodd bynnag, wrth ddelio gyda'r cais, yn ystyried bod y diffyg o 20m yn un arwyddocaol yn nhermau diogelwch y briffordd.  Fodd bynnag, fe leisiodd bryderon ynglŷn â lled y trac oedd yn rhoi mynediad i safle'r datblygiad a'r posibilrwydd y ceid tagfeydd a gwrthdaro rhwng cerbydau yn ceisio mynd i mewn a rhai yn trio dod allan o'r safle ar yr un pryd.

Fel rhan o'r cais, bwriedir gwneud gwelliannau i'r lleiniau gwelededd ac i'r trac sy'n rhoi mynediad er mwyn dod dros y broblem hon.

**Risg Llifogydd** – Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Asesiad Canlyniad Llifogydd fel rhan o'r cais.  Disgwylir am ateb Asiantaeth yr Amgylchedd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Nod Nodyn Cyngor Technegol 15 yw:

i) Cyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd o'r ardaloedd lle ceir risg uchel o lifogydd
ii) Lle bod yn rhaid ystyried datblygu mewn ardaloedd risg uchel o'r fath (parth C) dim ond y datblygiadau y gellir eu cyfiawnhau ar sail y profion a amlinellir yn Adran 6 a 7 yw'r rhai gaiff eu lleoli mewn ardaloedd o'r fath.

Mae Paragraff 6.2 o TAN 15 yn dweud y dylid cyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd o ardaloedd sydd o fewn parth C ac mae'n rhestru meini prawf sy'n rhaid eu bodloni er mwyn caniatáu unrhyw ddatblygiadau o fewn y parth.

Ystyrir bod y cynnig hwn yn un sy'n gorffen yr anheddiad yn grwn, y mae'n safle tir llwyd ac y mae'r FCA yn nodi y gellir delio'n ddigonol gyda materion llifogydd fel rhan o'r datblygiad. Mae'r profion cyfiawnhad wedi'u

bodloni.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod yr egwyddor o ddatblygu yn dderbyniol am y rhesymau a amlygwyd yn yr adroddiad. Nid ydym yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar yr AHNE ac fe ddeliwyd eisoes gyda materion risg llifogydd a phriffyrdd. Mae'r cynnig yn annhebygol iawn o gael effaith ar fwynderau cymdogion.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu**, ar yr amod na cheir unrhyw sylwadau croes o fewn y cyfnod rhybuddio fydd yn codi materion nad ydynt wedi derbyn sylw yn yr adroddiad hwn, a gyda'r amodau a ganlyn:

**(01) Rhaid wrth gymeradwyaeth y Cyngor cyn cychwyn gweithio ar y materion neilltuol isod sef gwedd yr adeiladau a thirlunio'r safle.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgeisio am ganiatâd i'r mater (ion) neilltuol y cyfeirir atynt uchod ymhen tair blynedd o'r dyddiad y rhoddir y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(03) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo erbyn un o'r ddau ddyddiad isod, pa un bynnag sydd yn digwydd olaf, sef:- (a) o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn neu (b) o fewn dwy flynedd i'r dyddiad pryd rhoddi'r caniatâd terfynol i'r mater(ion) wrth gefn a nodir neu, pan fo caniatâd yn cael ei roddi ar ddyddiadau gwahanol, y dyddiad pryd caniatawyd yn derfynol yr olaf o'r mater(ion) wrth gefn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(04) Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bo manylion am y deunyddiau gorffen allanol sydd i'w defnyddio ar y datblygiad wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid defnyddio'r manylion fydd wedi'u cytuno i adeiladu'r cynllun oni bai bod yr awdurdod cynllunio lleol yn rhoddi ei ganiatâd ysgrifenedig blaenorol i unrhyw newid.**

Rheswm: I ddiogelu prydferthwch yr ardal hon sy'n Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol dynodedig.

**(05) Serch yr uchod yr uchod, rhaid defnyddio llechi naturiol o'r un lliw fel deunyddiau toi yr anheddau a ganiateir yma.**

Rheswm: I ddiogelu prydferthwch yr ardal hon sy'n Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol dynodedig.

**(06) Rhaid wrth ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol cyn torri coed neu wrychoedd ar y safle neu ar derfynau'r safle, a phetai coed neu wrychoedd yn cael eu torri yna rhaid plannu rhai eraill yn eu lle, fel bod hynny'n bodloni'r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: I ddiogelu prydferthwch yr ardal hon sy'n Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol dynodedig.

**(07) Rhaid gosod lefelau llawr gorffenedig yr anheddau arfaethedig heb fod yn is na 4.8m uwchben Datwm Ordnans (AOD).**

Rheswm:  I leihau’r risg o lifogydd yn y datblygiad arfaethedig.

**(08) Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bo manylion llawn am lefelau a chroesdoriadau o’r safle i Ddatwm Ordnans wedi’u cyflwyno i’r awdurdod cynllunio a’u cymeradwyo ganddo.  Rhaid cwblhau’r cynllun wedi hynny yn hollol unol â’r manylion fydd wedi cael eu cymeradwyo oni bai fod yr awdurdod cynllunio lleol yn rhoddi ei ganiatâd ysgrifenedig cyn hynny i unrhyw newid.**

Rheswm:  Er mwyn sicrhau dull boddhaol o ddatblygu ac i rwystro risg llifogydd.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim